**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**21AIN MAWRTH 2012**
**EITEM AGENDA RHIF 6**

**ADRODDIAD GAN BENNAETH Y GWASANAETHAU CYNLLUNIO, ADFYWIO A RHEOLEIDDIO**

# APÊL CYNLLUNIO

# ADEILADU CARTREF GOFAL 60 GWELY Y TU ÔL I GARTREF PRESENNOL, ADEILADU MAES PARCIO NEWYDD A MYNEDFA NEWYDD I GERBYDAU O RODFA'R DWYRAIN A LÔN WASANAETH O TARLETON STREET

# CARTREF PRESWYL ST DAVID'S, RHODFA'R DWYRAIN, Y RHYL

# CAIS 45/2011/0572/ PF

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Mae'r adroddiad yn ymwneud â phenderfyniad y Pwyllgor Cynllunio i wrthod, yn erbyn yr hwn y cyflwynwyd apêl ffurfiol. Caiff yr apêl ei thrin trwy gyfrwng Gwrandawiad.

1.2 Bydd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth gefndir berthnasol i'r Aelodau, ac yn gofyn i'r aelodau benodi dau gynrychiolydd i roddi tystiolaeth yn y gwrandawiad yn unol â Pharagraff 9.3 Protocol Apeliadau Cynllunio a Chyfranogiad Aelodau.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae'r apêl cynllunio wedi deillio o benderfyniad y Pwyllgor i wrthod cymeradwyo cais i adeiladu cartref gofal 60 gwely, gyda gwaith mynedfa a pharcio cysylltiedig, yng Nghartref Preswyl St David's, Rhodfa'r Dwyrain, y Rhyl.

2.2 Cyflwynwyd y cais ym Mai 2011 a'i ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio ym Medi 2011. Argymhelliad y swyddog oedd RHOI caniatâd. Penderfynodd y Pwyllgor WRTHOD caniatâd am y rhesymau canlynol:

1. "Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried bod lefel y ddarpariaeth ar gyfer parcio oddi ar y stryd a'r trefniadau mynediad ar gyfer cerbydau gwasanaeth ac argyfwng mewn perthynas â datblygiadau cysylltiedig â Chartref presennol St David's a'r Cartref Gofal arfaethedig yn annigonol ac yn debygol o barhau'r problemau sy'n deillio o ddefnyddio Tarleton Street fel ffordd wasanaeth ac ar gyfer parcio cerbydau staff ac ymwelwyr. Ystyrir bod Tarleton Street yn ffordd annigonol i wasanaethu'r datblygiad, gan fod lled y gerbydlon yn gyfyngedig, mae parcio ar y stryd, a llwybr cerdded cul na ellir ei ddefnyddio ar un ochr yn unig. Ystyrir bod y cynigion yn gwrthdaro â phrofion vi a vii Polisi GEN 6, prawf v Polisi CF5, a Pholisïau TRA6 a TRA9 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych, a'r canllawiau parcio yn Nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor Rhif 21 – Gofynion Parcio ar Ddatblygiadau Newydd, sy'n ceisio sicrhau trefniadau parcio a gwasanaethu digonol ar ddatblygiadau newydd"

2. “ Ystyria’r Awdurdod Cynllunio Lleol y byddai’r cynigion yn arwain at or-ddwysád datblygiad ar y safle, gan arwain at ddatblygiad cyfyng a lle agored annigonol i drigolion y ddau Gartref Gofal, yn groes i brofion i, ii a iii Polisi GEN 6 a phrawf iv Polisi CF5 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych”.

2.3 Yr unig benderfyniad yn y Pwyllgor oedd rhoi caniatâd, ond y bleidlais oedd 13-7 i wrthod. Y Cynghorwyr a siaradodd yn erbyn rhoi caniatâd oedd y Cynghorwyr Bellis, Bartley, a Pennington. (Cofnodion ynghlwm er mwyn cyfeirio atynt)

2.4 Dyddiad y Dystysgrif o Benderfyniad ffurfiol oedd 6ed Hydref 2011.

2.5 Hysbysodd yr Arolygiaeth Gynllunio y Cyngor o’r apêl ar 21ain Chwefror, 2012. Maent wedi dweud y caiff yr apêl ei thrin mewn Gwrandawiad, ac mai dyddiad y gwrandawiad fydd dydd Mawrth Mehefin 19eg, 2012.

2.6 Rhaid anfon Datganiad y Cyngor ar yr apêl, ac unrhyw sylwadau pellach gan drydydd partïon, at yr Arolygiaeth Gynllunio erbyn 3ydd Ebrill, 2012.

## 3. PENDERFYNIAD A GEISIR

3.1 Gan fod y penderfyniad i wrthod yn groes i argymhelliad y swyddog, mae angen dilyn y Protocol a fabwysiadwyd ar gyfer delio ag Apeliadau Cynllunio a Chyfranogiad Aelodau.

Dywed Paragraff 9.3:
“Bydd angen i aelodau’r Pwyllgor Cynllunio gyflwyno tystiolaeth mewn ymchwiliad neu wrandawiad anffurfiol ar apeliadau lle mae argymhelliad swyddog wedi ei wrthdroi. Dylai’r Pwyllgor Cynllunio benodi cynrychiolwyr i gyflwyno tystiolaeth yn y gwrandawiad/ymchwiliad (fel rheol cynigydd ac eilydd y cynnig)”

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Bod y Pwyllgor Cynllunio yn penodi dau gynrychiolydd i gyflwyno tystiolaeth yn y Gwrandawiad.

**GRAHAM H. BOASE**
**PENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO, ADFYWIO A RHEOLEIDDIO**